



CYMDEITHAS TAI TEULU (CYMRU) CYF

CYNLLUN IAITH GYMRAEG

A baratowyd yn unol â

DEDDF YR IAITH GYMRAEG 1993.

u'r egwyddor a sefydlwyd dan DDEDDF YR IAITH GYMRAEG 1993, sef y bydd, wrth gynnal busnes cyhoeddus, yn trin yr ieithoedd Cymraeg a Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal, hyd orau ei gallu.

Mae'r Cynllun hwn yn amlinellu sut y byddwn ni'n cyflawni'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i bobl sydd angen tai yng Nghymru.

Bydd y Gymdeithas yn ymgynghori â Bwrdd yr Iaith Gymraeg os oes unrhyw gynnig wedi'i gynllunio a fyddai'n effeithio'r uniongyrchol ar y cynllun hwn.

Amcanion:

I alluogi pawb sy'n defnyddio gwasanaeth neu sydd â chyswllt gyda'r Gymdeithas i wneud hyn drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn unol â'u dewis personol.

I sicrhau gwasanaeth o ansawdd uchel p'un ai yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

Cymeradwywyd y cynllun hwn gyntaf gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan adran 14 (1) o'r Ddeddf ar 25/05/07

Cymeradwywyd y cynllun wedi'i ddiweddarau ar 03/06/2010

CYFLWYNIAD

Mae Cymdeithas Tai Teulu (Cymru) Cyf wedi bod yn darparu tai cymdeithasol yng Nghymru ers 1975. Ar hyn o bryd, rydym yn cynnig gwasanaethau tai a chymorth yn Abertawe, Sir Gaerfyrddin a Chastell-nedd/Port Talbot, ac fe fyddwn ni'n cynnig gwasanaethau yng Ngheredigion yn 2011. Rydym yn rheoli dros 2000 o dai fforddiadwy o ansawdd dda, a'n cwrdd ag anghenion ystod eang o bobl, gan gynnwys teuluoedd, pobl hŷn, pobl sengl, y digartref a'r rhai hynny sy'n dioddef o salwch meddwl. Ers 2006, mae ein heiddo wedi'u gwahanu'n ddaearyddol fel a ganlyn:

Abertawe	69%
Castell-nedd/Port Talbot	1%
Sir Gaerfyrddin	30%

Mae ystadegau o'r awdurdodau lleol yn yr ardaloedd hyn yn dangos bod y canran o bobl sy'n siarad Cymraeg yn amrywio o thua 18% yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, i 55% yn Sir Gaerfyrddin a 52% yng Ngheredigion. Mae ffigyrau o Gyfrifiad 2001 yn dangos bod 20.8% o'r boblogaeth yng Nghymru yn siarad Cymraeg.

Gyda phrif swyddfa yn Abertawe, a swyddfeydd drwy gydol yr ardal, rydym yn cyflogi dros 230 o staff.

Mae'r Gymdeithas yn cael ei rheoli gan Fwrdd Rheoli gwirfoddol sy'n dirprwyo cyfrifoldeb am faterion dydd i ddydd i'r Prif Weithredwr ac i ddau Gyfarwyddwr.

Fel Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, rydym yn defnyddio grantiau a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Yn ogystal, rydym yn derbyn cyllid preifat gan fanciau, adeiladau cymdeithasol a gan sefydliadau ariannol eraill.

DARPARU GWASANAETHAU

Rydym yn anelu at ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac ni fydd iaith ddewisol person yn amharu ar effeithiolrwydd y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig.

Efallai na fydd yn bosib darparu gwasanaeth hollol gyson drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ar draws pob maes gwaith. Fodd bynnag, fe fyddwn ni'n ceisio darparu'r gwasanaeth gorau posib bob amser.

Fe fyddwn ni'n sicrhau bod y rhai hynny sydd â'r dasg o lunio polisiau yn ymwybodol o'r Cynllun, a bod angen asesu effaith polisiau newydd ar y cynllun, a gwirio eu bod nhw'n cydymffurfio â'r cynllun ac nid yn ei danseilio.

1 Bwrdd Rheoli

- 1.1 Bydd y Gymdeithas yn anelu at recriwtio a chynnal cynrychiolaeth o siaradwyr Cymraeg ymysg Aelodau gwirfoddol o'r Bwrdd sy'n adlewyrchu'r sefyllfa leol, a bydd yn cynnig hyfforddiant yn yr Iaith Gymraeg i'r rhai hynny sydd â diddordeb. Fe fydd cyfleoedd sy'n cael eu hysbysebu i fod yn Aelod o'r Bwrdd yn annog siaradwyr Cymraeg i ymgeisio.

2 Hunaniaeth Gorfforaethol

- 2.1 Bydd ein delwedd gyhoeddus yn ymddangos yn y Gymraeg a'r Saesneg. Er enghraifft, logos, arwyddfyrdau, penawdau llythyrau, cardiau busnes, slipiau cyfarch, cerbydau, dillad ac adeiladau. Pan fyddwn ni'n adnewyddu neu'n gosod arwyddion newydd, fe wnawn ni sicrhau fod y fersiynau newydd yn hollol ddwyieithog. Bydd arwyddion sy'n cael eu codi am y tro cyntaf yn hollol ddwyieithog. Yr unig eithriad yw pan fydd arwyddion yn ymddangos mewn Saesneg a Chantoneg.
- 2.2 Lle bynnag y bydd y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu defnyddio, bydd y ddwy iaith yr un mor amlwg â'i gilydd.
- 2.3 Derbynnir y bydd cyflawni hunaniaeth gorfforaethol hollol ddwyieithog yn cymryd amser, ac er na fydd yn bosibl newid pob eitem o'r fath ar unwaith, bydd hyn yn cael ei gynllunio pan a phryd y bydd stoc/cyflenwadau newydd yn cael eu harchebu.

3 Gohebiaeth

- 3.1 Rydym yn croesawu gohebiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, ac fe fyddwn ni'n ateb yn yr un iaith â'r ohebiaeth wreiddiol. Bydd y Gymdeithas yn sicrhau y bydd graddfeydd amser ar gyfer ateb yn y Gymraeg a'r Saesneg yn union yr un fath fel arfer. Efallai y bydd yn cymryd tipyn mwy o amser i anfon atebion technegol eu natur gan y bydd angen edrych am gymorth cyfieithu proffesiynol. Yn yr achos hwn, byddwn ni'n ateb yr ysgrifennydd, ac yn egluro'r rheswm am unrhyw oediad o ran ateb yn eu hiaith ddewisol.
- 3.2 Os ydym yn gwybod mai Cymraeg yw iaith ddewisol person, fe fyddwn ni'n ysgrifennu yn y Gymraeg a bydd y dewis yma'n cael ei nodi ar ein cofnodion. Fe fyddwn ni'n gofyn am ddewisiadau tenantiaid cyfredol mewn un ymarfer, ac ar ôl hynny, ar y cyswllt cyntaf gyda'r Gymdeithas.
- 3.3 Os oes angen, bydd trefniadau'n cael eu gwneud i ddod o hyd i wasanaethau cyfieithu allanol.
- 3.4 Cynghorir pawb sy'n cynnal busnes gyda ni fod gohebiaeth yn cael ei groesawu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, ac fe fydd hyn yn cael ei nodi ar ein papurau pennawd.
- 3.5 Bydd llythyrau safonol i denantiaid yn cael eu cynhyrchu drwy gyfrwng y Gymraeg a Saesneg.

4 Cyfarfodydd

- 4.1 Wrth drefnu cyfarfodydd yn ein swyddfeydd neu yng nghartref tenant neu ymgeisydd, fe fyddwn ni'n gofyn pa iaith sydd orau ganddyn nhw, os nad yw'r wybodaeth eisoes gennym ni ar ffeil. Lle'n bosib, fe fyddwn ni'n sicrhau bod person sy'n siarad Cymraeg yn delio â'r rhai hynny sydd wedi rhoi Cymraeg fel eu hiaith ddewisol.
- 4.2 Gan mai dim ond ychydig yn unig o staff sy'n siarad Cymraeg sydd gennym ni ar ddechrau'r Cynllun, nid ydym yn gallu gwarantu cyfarfodydd wyneb yn wyneb ar unwaith drwy gyfrwng y Gymraeg. Fe fyddwn ni'n anelu at ddarparu mwy o wasanaethau wyneb yn wyneb drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod oes y cynllun hwn.
- 4.3 Os oes galw cyson am gyfarfodydd o'r fath mewn Cymraeg ac nad ydym yn gallu cwrdd â'r galw hwnnw, fe fyddwn ni'n ystyried recriwtio neu ddarparu hyfforddiant i'n galluogi ni i gwrdd â'r galw.
- 4.4 Os bydd cyfarfodydd cyhoeddus yn cael eu cynnal, fe fyddwn ni'n croesawu cyfraniadau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Pan fyddwn ni'n anfon wybodaeth ynghylch y cyfarfod, fe fyddwn ni'n gofyn i'r rhai hynny sy'n cymryd rhan i roi gwybod i ni o'u hiaith ddewisol, a lle'n bosib, fe fyddwn ni'n trefnu gwasanaethau cyfieithu. Fe fyddwn ni'n rhoi gwybod o flaenllaw i'r rhai hynny sy'n mynychu os bydd staff sy'n siarad Cymraeg ar gael.

5 Partneriaethau

- 5.1 Fe fyddwn ni'n annog ein sefydliadau partner i ddefnyddio'r iaith Gymraeg.
- 5.2 Fe fyddwn ni'n darparu copi o'n cynllun i'n contractwyr yn ystod y broses tendro, ac yn gofyn sut fedran nhw weithio'n ddwyieithog.
- 5.3 Os ydym ni'n bartneriaid mewn consortiwm, fe fyddwn ni'n annog y consortiwm hwnnw i feithrin polisi dwyieithog.

6 Cyhoeddiadau

- 6.1 Fe fyddwn ni'n anelu at gynhyrchu'r holl ddeunyddiau argraffedig newydd a gynhyrchwyd ar gyfer ein tenantiaid yn ddwyieithog, gyda'r ddwy iaith yn ymddangos yn yr un ddogfen.
- 6.2 Pan nad yw'n bosibl gwneud hyn mewn un ddogfen, bydd fersiwn Gymraeg o daflenni a deunydd argraffedig yn cael ei dangos, a bydd ar gael yn rhwydd.
- 6.3 Bydd fersiwn Gymraeg o bob cyhoeddiad ar ein gwefan.

7 Cyhoeddusrwydd

- 7.1 Fel arfer, bydd byrddau arddangos ar gyfer pwrpasau marchnata a Chysylltiadau Cyhoeddus yn cael eu cynhyrchu drwy gyfrwng y Saesneg a Chymraeg, lle'n addas. Er enghraifft, bydd gan wasanaeth Gofal a Thrwsio Rhydaman ddeunydd arddangos a thafleuni gwybodaeth yn y Gymraeg bob amser.
- 7.2 Fel arfer, fe fydd datganiadau i'r wasg yn cael eu cyhoeddi yn y Saesneg os mai Saesneg yw'r cyfryngau fydd yn eu defnyddio, ond fe fyddan nhw'n cael eu cynhyrchu yn y Gymraeg os ydyn nhw wedi'u hanelu at gyhoeddiadau Cymraeg.

8 Hysbysiadau Cyhoeddus

- 8.1 Bydd hysbysiadau cyhoeddus yn ymddangos yn y wasg drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

9 Recriwtio

- 9.1 Ein nod yw sicrhau bod digon o staff sy'n siarad Cymraeg mewn cyswllt â'r cyhoedd.
- 9.2 Os mai Saesneg yw'r cyfryngau recriwtio fydd yn cael eu defnyddio, yna Saesneg fydd fel arfer y cyfrwng addas ar gyfer hysbysebu am staff. Fodd bynnag, pan fod y gallu i siarad Cymraeg yn elfen hanfodol o'r swydd, yna bydd yr hysbyseb yn ymddangos yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- 9.3 Fel arfer, darperir ffurflenni cais am swydd mewn Saesneg, a bydd gofyn i'r ymgeisydd ymgeisio mewn Saesneg, gan mai hon yw prif iaith fusnes y Gymdeithas.
- 9.4 Bydd manylebau'r person yn nodi bod Cymraeg yn ddymunol o leiaf ar gyfer pob swydd.
- 9.5 Bydd rheolwyr yn ystyried a ddylai disgrifiadau swyddi nodi fod y Gymraeg yn elfen hanfodol, yn dibynnu ar nifer y siaradwyr Cymraeg ym meysydd eu gwasanaethau a'r cwsmeriaid maen nhw'n darparu ar eu cyfer.
- 9.6 Pan fydd pecynnau gwybodaeth yn cael eu hargraffu ymlaen llaw ar gyfer recriwtio, fe fyddan nhw'n cynnwys gwybodaeth yn y ddwy iaith. Bydd pecynnau gwybodaeth yn cael eu cynhyrchu yn ddwyieithog ar gyfer swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol.
- 9.7 Bydd ymgeiswyr sy'n cael cynnig swyddi yn cael eu hysbysu ynghylch y gwasanaethau iaith Gymraeg sy'n cael eu cynnig gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol.
- 9.8 Bydd deunydd recriwtio yng Ngheredigion yn datgan bod y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn fantais (gweler 10.3)

10 Staffio

- 10.1 Bydd archwiliad blynyddol o sgiliau iaith yn cael ei gynnal, a bydd enwau'r aelodau hynny o staff sy'n gallu cyfathrebu yn y Gymraeg yn cael eu cyhoeddi fel bod aelodau eraill o staff a fyddai o bosib angen cymorth yn gallu dod o hyd iddyn nhw'n rhwydd.
- 10.2 Bydd aelodau o staff sy'n gallu siarad Cymraeg yn cael eu hannog i wisgo bathodyn 'Iaith Gwaith' Bwrdd yr Iaith i dynnu sylw atyn nhw eu hunain.
- 10.3 Fe fyddwn ni'n ceisio recriwtio a chynnal targed o 50% o staff yng Ngheredigion sy'n siarad Cymraeg.

11 Gwybodaeth i denantiaid

- 11.1 Bydd llythyrau safonol yn cael eu cynhyrchu mewn Saesneg a Chymraeg.
- 11.2 Bydd llawlyfrau tenantiaeth a chytundebau cyfreithiol yn cael eu cynhyrchu mewn Saesneg, a bydd fersiynau Cymraeg ar gael ar gyfer y rhai hynny sydd wedi nodi Cymraeg fel eu hiaith ddewisol. Fe fyddwn ni'n sicrhau bod copi dwyieithog ar gael ar ein gwefan.
- 11.3 Fe fyddwn ni'n cadw cofnod o denantiaid sy'n dymuno cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 11.4 Bydd cylchlythyron sy'n darparu gwybodaeth gyffredinol yn cael eu cynhyrchu yn y Gymraeg a'r Saesneg.

12 Cyswllt ffôn

- 12.1 Rydym yn croesawu cyswllt dros y ffôn drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd pob aelod o staff sy'n ateb llinellau ffôn allanol cyhoeddus ym mhob adran o'r Gymdeithas yn cyfarch pobl yn ddwyieithog pan maen nhw'n ateb y ffôn. Bydd staff sydd ddim yn siarad Cymraeg yn trosglwyddo'r rhai hynny sy'n galw at berson sy'n siarad Cymraeg os yw'r person sy'n galw'n dymuno parhau â'r sgwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Os nad oes neb ar gael, bydd y rhai hynny sy'n galw yn cael y cyfle i barhau â'r sgwrs mewn Saesneg, neu fe fyddwn ni'n trefnu i berson sy'n siarad Cymraeg i ddychwelyd yr alwad cyn gynted â phosib.
- 12.2 Bydd negeseuon peiriannau ateb yn ddwyieithog.

13 Hyfforddiant

- 13.1 Fe wnawn ni gefnogi'r cynllun hwn drwy gynnig hyfforddiant iaith Gymraeg ar lefel dechreuwyr a lefel gloywi i staff ac Aelodau o'r Bwrdd. Bydd staff yn cael eu hannog i siarad Cymraeg yn ystod y diwrnod gwaith os ydynt yn hyderus i wneud hynny. Yn ogystal, bydd hyfforddiant ymwybyddiaeth am yr iaith Gymraeg yn cael ei gynnig i'r holl staff rheng flaen. Bydd y Cynllun yn cael ei gyflwyno yn ystod y cyflwyniad cyffredinol i staff newydd.

14 Ymwelwyr i'n swyddfeydd

- 14.1 Rydym yn croesawu cyswilt gydag aelodau o'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg yn delio'n uniongyrchol ag ymholiadau, neu fel arall, byddan nhw'n cyfieithu ar y pryd ar ran aelodau eraill o staff os ydynt ar gael. Fel arfer, nid ydym yn ystyried bod defnyddio cyfleusterau cyfieithu ar y pryd yn ymarferol mewn amgylchiadau o'r fath.
- 14.2 Bydd deunydd arddangos ac arwyddion mewnol yn ein swyddfeydd yn ddwyieithog os ydym yn cynhyrchu'r rhain ein hunain. Fe fyddwn ni'n gofyn i asiantaethau eraill am ddeunydd dwyieithog lle'n addas, ond rydym yn derbyn na fydd pob asiantaeth yn gallu cydymffurfio â'r gofyn hwn.
- 14.3 Bydd aelod o staff sy'n gallu siarad Cymraeg ac sy'n awyddus i wneud hynny yn gwisgo sticer/bathodyn Bwrdd yr Iaith Gymraeg.
- 14.4 Bydd arwyddion yn ein prif dderbynfa'n nodi bod croeso i bawb siarad Cymraeg.

15 Cyswilt dros y we a drwy e-bost.

- 15.1 Fe fyddwn ni'n anelu at gynhyrchu ein gwefan yn y Gymraeg a'r Saesneg lle'n addas a'n ymarferol. Fe fyddwn ni'n parhau i ddatblygu'r wefan yn unol ag arfer da, er enghraifft, drwy ychwanegu rhagor o fotymau opsiwn Cymraeg drwy gydol y safle.
- 15.2 Bydd negeseuon e-bost sy'n cael eu derbyn mewn Cymraeg yn cael eu hanfon ymlaen at berson sy'n siarad Cymraeg. Bydd y graddfeydd amser ar gyfer ateb yn y Gymraeg a'r Saesneg yn union yr un fath ac yn cyd-fynd â'n safonau gwasanaeth a gyhoeddwyd.

16 Monitro

- 16.1 Fe fyddwn ni'n monitro a'n adrodd ar ddatblygiad y cynllun hwn a'r cynllun gweithredu yn flynyddol i'n Bwrdd Rheoli, a hefyd i Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Hefyd, fe fyddwn ni'n darparu ystadegau ar:
 - Nifer y ceisiadau ar gyfer derbyn cyfatebiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.
 - Nifer y ceisiadau ar gyfer cyfarfodydd mewn Cymraeg.
 - Nifer y staff sy'n derbyn hyfforddiant.
 - Canran y staff sy'n gallu cyfathrebu ar bapur ac ar lafar drwy gyfrwng y Gymraeg.
 - Y cwynion a dderbyniwyd.

17 Costau a graddfeydd amser

17.1 Rydym yn derbyn y bydd llawer o oblygiadau cyllidol ynghlwm â'r cynllun hwn. O ganlyniad, fe fyddwn ni'n ymdrechu i ddsbarthu targedau'r cynllun o fewn tair blynedd ar ôl i'r cynllun gychwyn yn swyddogol.

18 Cyfrifoldeb

18.1 Cyfrifoldeb Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fydd sicrhau bod y cynllun hwn yn cael ei weithredu'n effeithiol. Bydd pob Rheolwr yn gyfrifol am ei roi ar waith ym meysydd gwaith eu hunain.

18.2 Y Pennaeth Personél fydd yn gyfrifol am ddsbarthu gwybodaeth a chanllawiau am y cynllun ac am ledaenu arfer da.

Dylai sylwadau a cheisiadau am ragor o wybodaeth gael eu hanfon at:

C Fortey

Pennaeth Personél

Cymdeithas Tai Teulu (Cymru) Cyf

43 Walter Road

Abertawe, SA1 5PN

E-bost: caroline.fortey@fha-wales.com,